Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Ymateb gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# i

# Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i Hawliau Dynol yng Nghymru

## Chwefror 2017

Am ragor o wybodaeth am yr ymateb hwn, cysylltwch â:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru,
Adeiladau Cambrian,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd, CF10 5FL
02920 445030

**Ynglŷn â'r Comisiynydd**

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar ran pobl hŷn ledled Cymru, sy'n codi llais ac yn siarad ar eu rhan. Mae hi'n gweithio i sicrhau bod y sawl sy'n agored i niwed ac mewn perygl yn cael eu cadw'n ddiogel ac mae'n sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, bod ganddynt ddewis a rheolaeth, nad ydynt yn teimlo eu bod wedi'u hynysu nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn cael y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae gwaith y Comisiynydd yn cael ei yrru gan yr hyn a dywed pobl hŷn yw'r pethau sydd bwysicaf iddynt hwy ac mae eu llais yn ganolog i bopeth a wna. Mae'r Comisiynydd yn gweithio i wneud Cymru'n lle da i heneiddio - nid i rai'n unig ond i bawb.

Y Comisiynydd Pobl Hŷn:

- Codi ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Annog arferion gorau yn y driniaeth a gaiff pobl hŷn yng Nghymru.
- Adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

**Ymchwiliad i Hawliau Dynol yng Nghymru**

1. Rwyf yn falch o weld bod y Pwyllgor yn parhau â gwaith ei ragflaenydd trwy gymryd y fath ddiddordeb mewn hawliau dynol. Yn ogystal â rhoi sylw i brif feysydd gwaith y Pwyllgor, mi hoffwn gynnig rhai sylwadau cyffredinol ar hawliau:

    - Mae gan hawliau ystyr a chyd-destun bob amser ond maent yn bwysicach nag erioed ar yr adegau mwyaf anodd

    - Mae gan hawliau berthnasedd ymarferol i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ar lefelau strategol, darparwyr gwasanaethau ac unigol

    - Mae pobl hŷn yn gwerthfawrogi eu hawliau ac maent am weld y wladwriaeth yn parchu, yn gwarchod ac yn hybu eu hawliau, yn ogystal â rhoi sylw i unrhyw achosion lle mae eu hawliau'n cael eu torri.

2. Mae'r tair egwyddor hon yn sail i fy ymagwedd tuag ar hawliau pobl hŷn ac maent yn arwain fy ngwaith i barchu, gwarchod a hybu'r hawliau hynny. Rwyf yn credu eu bod yn berthnasol i bob un o feysydd ymchwiliad y Pwyllgor.

3. Cafodd fy swyddfa ei sefydlu gydag Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn[1] yn ganolog iddi, ond hyd yn oed heb y gofyniad hwn i ganolbwyntio ar hawliau, mi fyddwn am hyrwyddo'r ymagwedd hon. Rwyf yn Gomisiynydd sy'n seilio'i hun ar hawliau, ac rwyf wedi bod yn bendant erioed bod ymwreiddio hawliau mewn gwasanaethau cyhoeddus yn gwella canlyniadau, a hynny i'r unigolyn ac i'r coffrau cyhoeddus.

4. Mae'r dull hwn sy'n seiliedig ar hawliau wedi cael ei annog ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a nodaf eich bod yn bwriadu ei ymgorffori yn eich gwaith trwy gydol y pumed Cynulliad[2].

5. Y farn gyffredinol yw bod ymagwedd ddatganoledig unigryw tuag at gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, un sy'n wahanol i

[1] Y Cenhedloedd Unedig (1991) Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl http://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/OlderPersons.aspx
[2] Griffiths, J. (2017) Datganiad gan Gadeirydd ymchwiliad y Pwyllgor i hawliau dynol yng Nghymru; Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

Lywodraeth y DU, fel y nodwyd gan ragflaenydd eich Pwyllgor. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i weithredu Adran 153 o'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a oedd yn gosod rhagor o ddyletswyddau cydraddoldeb ar y sector cyhoeddus, ac rwyf yn croesawu'r ffaith y bydd Deddf Cymru 2017 yn datganoli rhagor o elfennau o'r Ddeddf Cydraddoldeb mewn cysylltiad â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

**Effaith y DU yn Gadael yr Undeb Ewropeaidd**

6. Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn ddigwyddiad heb ei debyg ac mae'n rhy gynnar i wybod beth yn union fydd effeithiau hynny ar hawliau dynol, ac ar nifer o faterion eraill. Cynhaliodd Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol Tŷ'r Cyffredin ymchwiliad byr i oblygiadau hawliau dynol Brexit[3] ac roedd yr adroddiad hwnnw'n datgan yn eglur y byddai goblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol i hawliau dynol o ganlyniad i ymadawiad y DU.

7. Mae'n bosibl y byddai 'Brexit caled', fel mae'n cael ei alw, yn golygu y byddai'r DU yn cefnu ar gyfraith yr UE yn gyfan gwbl, a byddai hynny'n golygu y gallai unigolion yn y DU golli nifer o hawliau a oedd yn cael eu sicrhau trwy gyfarwyddebau a rheoliadau'r UE. Mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu y gellid cyflwyno Bil Diddymu Mawr a fyddai'n ymwreiddio holl gyfraith yr UE mewn cyfraith ddomestig a hynny cyn dechrau proses o ddiddymu'r elfennau nad yw'n dymuno eu cadw. Mae'r dasg yn un mor fawr fel bod perygl y gellid tynnu hawliau oddi ar bobl oni bai bod proses gadarn i ddadansoddi a chraffu. Mi fyddai'n rhaid i mi gael rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth y DU am y prosesau y byddant yn eu defnyddio er mwyn asesu'n fanwl yr effaith ar hawliau dynol pobl hŷn yng Nghymru.

8. Hefyd, mae'r ffaith bod llawer o'r hawliau sydd gan bobl hŷn o dan gyfraith y DU wedi dod i fodolaeth trwy gyfraith achos Llys Cyfiawnder Ewrop. Nid yw'n amlwg a fyddai'r gyfraith achos hon a chynseiliau'n cael eu hymgorffori yn system newydd y DU ac a fyddai cyfraith achos yn y dyfodol yn cael effaith ar gyfreithiau Ewropeaidd sydd wedi eu trosi. Heblaw am y gyfraith, mae llawer o rwydweithiau a chymunedau ymchwil ledled Ewrop sydd ar hyn o bryd yn gweithio i

[3] Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol (2016) The Human Rights implications of Brexit; Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi

ddatblygu a gweithredu polisïau sy'n gysylltiedig â hawliau dynol; nid yw'n amlwg a fyddai'r DU yn parhau i gyfrannu at hyn.

9. Nododd y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol fod llawer o bwyslais wedi bod hyd yma ar warantu hawliau gweithwyr, sydd ar hyn o bryd yn cael eu gwarchod o dan gyfraith yr UE, ar ôl i'r DU adael yr UE ond ni fu llawer o sôn am yr hawliau eraill sy'n cael eu gwarchod o dan Siarter Hawliau Sylfaenol Ewropeaidd, fel rhai sy'n ymwneud â gwahaniaethu[4]. Mae Erthygl 25 y Siarter yn cydnabod hawl pobl hŷn "i fyw bywyd ag urddas ac annibyniaeth ac i gyfranogi mewn bywyd cymdeithasol a diwylliannol"[5]. Rwyf yn siŵr na fyddai llawer o bobl hŷn yn dymuno gweld hawliau o'r fath yn cael eu cymryd oddi arnynt.

10. Rwyf yn cytuno ag argymhellion y Cyd-bwyllgor y dylai Llywodraeth y DU gyflwyno rhestr lawn o hawliau sylfaenol sy'n cael eu gwarantu gan yr UE cyn sbarduno Erthygl 50 ac y dylai'r Bil Diddymu Mawr gael ei gyhoeddi ar ffurf drafft i ganiatáu craffu llawn a phriodol[6]. Dylai'r craffu hwn gynnwys lleisiau'r llywodraethau datganoledig ac rwyf yn gobeithio y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gallu craffu ar y Bil drafft, yn enwedig yn y ffordd y bydd yn ymwneud â'r ymagwedd unigryw tuag at gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

11. Yn ychwanegol at yr effeithiau uniongyrchol hyn ar hawliau dynol yng Nghymru, mae'n hanfodol na fydd y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd yn arwain at ddiwylliant o wrthwynebu popeth 'Ewropeaidd', a'r pwysicaf ohonynt yn y cyd-destun hwn fyddai Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol[7]. Er bod y Confensiwn wedi'i greu gan Gyngor Ewrop (sefydliad sy'n annibynnol o'r Undeb Ewropeaidd), mae'n aml yn cael ei drafod mewn dadleuol sy'n ymwneud ag aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Bu galwadau gan aelodau amlwg o Lywodraeth y DU, gan gynnwys y Prif Weinidog ei hun, ar i'r DU i beidio â bod yn un o lofnodwyr y Confensiwn. Nid

[4] Y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol (2016) The Human Rights implications of Brexit; Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi; t. 6

[5] Yr Undeb Ewropeaidd (2012) Charter of the Fundamental Rights of the European Union

[6] Y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol (2016) The Human Rights implications of Brexit; Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi; t. 6

[7] Cyngor Ewrop (1950) Convention for the Protection of Human Rights and Fundamental Freedoms (European Convention on Human Rights, as Amended) (ECHR)

yn unig y byddai hyn yn niweidiol i hawliau pobl sy’n byw yng Nghymru a’r DU ond hefyd i’r ffordd y mae gweddill y byd yn gweld y DU.

12. Ar ôl i’r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, y Confensiwn fydd yr offeryn pwysicaf i warchod hawliau unigolion yn y DU rhag newidiadau gan Senedd y DU. Er mwyn i hawliau dynol fod yn wirioneddol effeithiol, rhaid iddynt fod yn gyffredinol. Dim ond trwy gadw ymrwymiad y DU i’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol y gall hawliau gael eu diogelu pan ddaw goruchafiaeth cyfraith yr UE i ben.

**Effaith cynnig Llywodraeth y DU i ddirymu Deddf Hawliau Dynol 1998 a’i disodli â Deddf Hawliau Prydeinig**

13. Rwyf wedi bod yn eglur o’r cychwyn nad wyf yn cefnogi cynnig Llywodraeth y DU i ddirymu’r Ddeddf Hawliau Dynol. Er nad yw’r Ddeddf yn berffaith, mae wedi dod â’r hawliau dynol sydd wedi’u hymgorffori yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i lysoedd domestig y DU ac wedi gwneud cyfiawnder yn fwy hygyrch i ddinasyddion y DU.

14. Mae rhai meysydd, er enghraifft y trothwyon a bennwyd i ddod ag achos yn ymwneud â phobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal ac eithrio rhai hunan gyllidwyr mewn cartrefi gofal rhag cael eu gwarchod gan y Ddeddf, yn rhai yr hoffwn eu gweld yn cael eu gwella. Rwyf wedi gwneud cynigion ar gyfer darn o ddeddfwriaeth Gymreig y credaf a fyddai’n rhoi sylw i’r materion hyn trwy gyflwyno ymagwedd yn seiliedig ar hawliau tuag at ofal a chymorth yn y lle cyntaf. Ceir rhagor o fanylion am y Bil hwn yn yr adran nesaf.

15. Mae’r Ddeddf Hawliau Dynol, er ei bod yn gyffredinol yn y ffordd mae’n cael ei gweithredu, yn gwarchod rhai o’r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas rhag cael eu cam-drin, gan gynnwys pobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal a phobl sy’n byw â dementia. Mae’r Ddeddf wedi cyfrannu at wella bywydau pobl hŷn mewn llawer o ffyrdd trwy warchod eu hawliau dynol sylfaenol, fel y gwelir yn yr enghreifftiau isod.

**Erthygl 3: Rhyddid rhag triniaeth greulon a diraddiol**

Aethpwyd â dyn 89 oed i'r ysbyty yn dioddef o ddadhydradu a rhwymedd. Daliodd yr ysbyty i roi triniaeth boenus iddo at ei rwymedd, er ei bod yn achosi iddo weiddi mewn poen yn ddi-dor. Ar adegau ymweld, canfu ei deulu ef ar fwy nag un achlysur, yn amlwg yn drallodus, heb ddim yn gorchuddio hanner isaf ei gorff. Roedd ei blant yn poeni mwy a mwy am ei driniaeth, ond nid oedd yr ysbyty'n ymateb i'w cwynion. Ar ôl 5 wythnos yn yr ysbyty bu farw'r claf o niwmonia.

Ysgrifennodd y teulu at brif weithredwr yr ysbyty, gan anfon copïau o'r llythyr at eu AS lleol ac Age Concern, yn cwyno am sut y cafodd eu tad ei drin. Dywedwyd y gallai'r driniaeth a gafodd eu tad yn yr ysbyty fod wedi mynd yn groes i'w hawl i beidio â chael ei drin mewn ffordd greulon neu ddiraddiol. Yn anffodus, roedd yn rhy hwyr i'w tad gael triniaeth fwy urddasol, ond roedd yr ateb manwl i'r llythyr yn cydnabod nifer o ddiffygion, a dywedwyd y byddent yn dysgu o ganlyniad i'r achos.

Ffynhonnell: Sefydliad Hawliau Dynol Prydain – Your Human Rights: A Guide for Older People[8]

**Erthygl 5: Yr Hawl i Ryddid ac Erthygl 8: Yr Hawl i barch i fywyd teuluol a phreifat, cartref a gohebiaeth**

Roedd P yn 91 oed ac wedi gwasanaethu yn yr Ail Ryfel Byd. Roedd ganddo broblemau iechyd, gan gynnwys dementia, ond roedd yn hoffi byw yn ei gartref ei hun lle'r oedd yn gweld ei ffrindiau ac yn mwynhau gofalu am ei gath. Roedd rhai o ffrindiau P yn poeni ei fod yn cael ei gam-drin yn ariannol ac roeddent yn bryderus am ei allu i ofalu amdano'i hun.

Yna cymerodd ei gyngor lleol gamau a arweiniodd at ei gadw mewn uned o dan glo am 17 mis. Er bod y cofnodion yn datgan bod P wedi mynd o'i wirfodd, roedd yn amlwg ei fod yn amharod i wneud hynny, ac roedd yn drallodus. Mae anghytuno ynglŷn â'r union ffeithiau ond dywedir fod P wedi bod yn gwisgo gwn llofft ar y pryd, heb drowsus na

[8] Sefydliad Hawliau Dynol Prydain (2010) Your Human Rights: A Guide for older people; Cyrchwyd: https://www.bihr.org.uk/olderpeopleguide

phyjamas.

Aeth yr achos i’r llys, lle penderfynwyd fod y ffordd roedd y cyngor wedi trin P yn cyfrif fel un a oedd yn mynd yn groes i’w hawliau dynol i ryddid a pharch i fywyd preifat a theuluol (Erthyglau 5 ac 8). Dywedir fod y tramgwydd yn waeth fyth oherwydd os na fyddent wedi digwydd, byddai P wedi parhau i fyw gartref, lle’r oedd yn hapus, gyda chymorth.

Dyfarnwyd £60,000 i P gan y cyngor fel iawndal am garcharu ar gam. Ond yn bwysicach na hynny, roedd yn gallu mynd adref, yn ôl at ei ffrindiau a’i gath. Mae ganddo bellach becyn cymorth addas, a dywedir ei fod yn hapus a bodlon.

Ffynhonnell: Sefydliad Hawliau Dynol Prydain – ‘Getting justice for a war veteran unlawfully detained by the Council’[9]

16. Ar ôl llawer o oedi i gynigion a wnaethpwyd gan Lywodraeth y DU, nid yw’n amlwg beth yn union fyddai yn y Ddeddf Hawliau Dynol Prydeinig. Fodd bynnag, yn ôl y dystiolaeth sydd ar gael, yn nogfen bolisi *Protecting Human Rights in the UK* y Blaid Geidwadol[10], mae tri maes sy’n achosi pryder mawr.

17. Mae’r cyntaf yn ymwneud â’r awydd yn y diwygiadau i ‘egluro’ rhai o hawliau’r Confensiwn. Rwyf yn ofni y bydd hyn yn lliniaru ac yn gwanhau rhai o’r hawliau sydd wedi’u cynnwys yn y Confensiwn ac yn ei gwneud yn anos i wneud honiadau bod hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu torri.

18. Yn gysylltiedig â hyn mae’r cynnig i gyfyngu ar y defnydd o gyfreithiau hawliau dynol i’r achosion mwyaf difrifol yn unig. Rhaid i hawliau dynol yn ôl eu hanfod fod yn gyffredinol ac yn agored i bob dinesydd, heb ystyriaeth i ‘ddifrifoldeb’ tybiedig eu hachos. Rhaid i ni ddangos ymrwymiad i gynnal yr egwyddor o gyffredinolrwydd.

19. Mae’r ddogfen bolisi hefyd yn datgan pe na fyddai Llywodraeth y DU yn gallu dod i gytundeb â Chyngor Ewrop bod eu Deddf Hawliau Dynol Prydeinig yn gydnaws â’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau

[9] Sefydliad Hawliau Dynol Prydain (2015) Getting justice for a war veteran unlawfully detained by the Council; Cyrchwyd: https://www.bihr.org.uk/FAQs/veteranunlawfuldetention
[10] Y Blaid Geidwadol (2014) Protecting Human Rights in the UK; pp. 5-7

Dynol, ni fyddai ganddi ddewis ond tynnu'n ôl o'r Confensiwn. Byddai cam o'r fath yn beryglus o ran gwarchod hawliau dynol ym mhob rhan o'r DU.

20. Rwyf wedi gweithio â chydweithwyr yn Sefydliad Hawliau Dynol Prydain[11] i wneud datganiadau clir sy'n ymrwymo i gadw'r Ddeddf Hawliau Dynol ac rwyf wedi cefnogi galwadau gan sefydliadau eraill fel Liberty[12] i frwydro i gadw'r Ddeddf.

21. Oherwydd yr ymagwedd unigryw tuag at gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, byddwn yn disgwyl i Lywodraeth y DU gadw at yr addewid a wnaethpwyd gan Syr Oliver Heald AS, y Gweinidog dros Hawliau Dynol, i ymgynghori'n eang â'r cenhedloedd datganoledig os bydd cynlluniau i ddirymu'r Ddeddf ac i gyflwyno Deddf Hawliau Dynol Prydeinig[13].

**Canfyddiadau'r cyhoedd o hawliau dynol yng Nghymru**

22. Trwy ymgysylltu â phobl hŷn rwyf wedi gweld er bod llawer o bobl hŷn yn deall eu hawliau a'u bod yn awyddus i gymryd rhan mewn trafodaethau am eu hawliau, mae nifer sylweddol o bobl o hyd nad ydynt yn gweld sut y mae hawliau dynol yn effeithiau ar eu bywyd bob dydd.

23. Rwyf wedi defnyddio fy nghysylltiadau â phobl hŷn i gynghori Llywodraeth Cymru ar ei Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2014. Mae'r datganiad yn defnyddio lleisiau pobl hŷn i ddatgan y pethau sy'n bwysig iddynt, yr hawliau sydd ganddynt o dan offerynnau cyfreithiol presennol a sut y gallai'r hawliau hyn gael eu torri[14].

24. Yr hyn a ddaeth yn amlwg i mi trwy'r broses hon oedd bod yn rhaid i ni wneud hawliau'n rhywbeth real i bobl. Mae hawliau dynol yn aml yn cael eu gweld mewn ffordd haniaethol ond y gwir yw eu bod yn cael effaith bositif ar fywydau pobl a gallant helpu i wella canlyniadau

[11] Sefydliad Hawliau Dynol Prydain (2016) Human Rights Day Letter 2016; Cyrchwyd: https://www.bihr.org.uk/human-rights-day-letter-2016
[12] Liberty (2015) Save Our Human Rights Act; Cyrchwyd: https://www.liberty-human-rights.org.uk/campaigning/save-our-human-rights-act-0
[13] Y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol (2016) Oral Evidence: What are the human rights implications of Brexit? – Y Gwir Anrhydeddus Syr Oliver Heald AS, Gweinidog dros Hawliau Dynol; 23 Tachwedd 2016. Q17
[14] Llywodraeth Cymru (2014) Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru

i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Bu problem wrth geisio dod o hyd i iaith y gall pobl uniaethu â hi mewn ffordd sy'n real ac ystyrlon iddynt.

25. Er enghraifft, mae'r ddyletswydd i ymchwilio i farwolaethau a honiadau o arteithio, sydd wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth hawliau dynol, wedi arwain at gwestau Hillsborough, yr ymchwiliadau i gam-drin plant yn Rotherham a chanfod cyfrifoldeb pan fydd yr heddlu'n gwrthod cymryd galwadau ar drais domestig yn ddigon difrifol[15]. Yng Nghymru, rydym wedi gweld hawliau dynol yn helpu i agor ymchwiliadau i'r cam-drin ar ward Tawel Fan yng Ngogledd Cymru[16] ac Operation Jasmine mewn cartrefi gofal yng Ngwent[17]. Nid yw'r digwyddiadau hyn yn cael ei disgrifio i'r cyhoedd yng nghyd-destun torri hawliau dynol ac felly nid ydynt yn arwain at ennyn canfyddiad positif o effaith hawliau dynol.

26. Dyna pam yr wyf wedi cynnig Bil i warchod ac i hyrwyddo hawliau pobl hŷn yng Nghymru. Nod fy nghynigion yw creu dyletswydd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru i roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau. Yn ychwanegol at hyn, byddai dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ledled Cymru ymhlith y cyhoedd yn ogystal ag awdurdodau cyhoeddus.

27. Byddai'r Bil yn ymgorffori dull sy'n seiliedig ar hawliau wrth ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn ym mhob sector, sy'n ychwanegu at y dyletswyddau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig mewn cysylltiad â gofal cymdeithasol.

28. Byddai'r Bil yn adlewyrchu'r darpariaethau a wnaethpwyd ar gyfer plant a phobl ifanc ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

---

[15] McGregor, L. (2016) Reclaiming Human Rights; Rightsinfo.org; Cyrchwyd: http://rightsinfo.org/reclaiming-human-rights/

[16] Hughes, G. (2016) Investigators probing care at scandal-hit Tawel Fan ward want to speak to families of 20 more patients, *Daily Post*; Cyrchwyd: http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/another-20-families-potential-tawel-11897545

[17] Hill, K. (2013) Care Bill: How the Human Rights Act can provide a safety net, *Age UK*; Cyrchwyd: https://ageukblog.org.uk/2013/07/19/care-bill-how-the-human-rights-act-can-provide-a-safety-net/#more-3252

2011, a oedd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i dalu sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd ar Hawliau'r Plentyn. Rwyf wedi cael trafodaethau positif â Phrif Weinidog Cymru a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar eu hymrwymiad mewn egwyddor i ddeddfu yn y maes hwn. Gobeithiaf y bydd gennyf sylwadau pellach i'w gwneud ar gynnydd y Bil yn ystod y misoedd nesaf.

29. Yn ogystal â newid cywair y trafodaethau ar hawliau, mi hoffwn ychwanegu fy nghefnogaeth at alwadau blaenorol i wneud y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru yn fwy annibynnol, fel sydd wedi digwydd yn yr Alban. Byddai Comisiynydd annibynnol yn gallu gwneud mwy o waith ar feysydd polisi datganoledig a helpu i hysbysu'r cyhoedd o'u hawliau, gan gynnwys y rhai ychwanegol sydd ganddynt trwy'r Cynulliad Cenedlaethol. Fel yr oedd eich rhagflaenwyr wedi'i argymell, dylai Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru lunio concordat ar gyfer cydweithio a symud tuag at fwy o annibyniaeth i'r Comisiwn[18].

**Casgliad**

30. Mae llawer o heriau o'n blaenau a fydd yn profi ein hymrwymiad i hawliau dynol i bawb yn y wlad. Nid oes man 'hanner ffordd' pan ddaw'n fater o fabwysiadu dull yn seiliedig ar hawliau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus: rydych naill ai wedi ymrwymo i warchod a hybu hawliau dynol neu ddim. Mae'n bwysig bod y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru'n dangos arweinyddiaeth gref ac ymrwymiad clir i hawliau dynol yng Nghymru.

31. Mae colli'r hawliau dynol sydd wedi'u hymgorffori yng nghyfraith yr UE, yn ogystal â'r posibilrwydd o golli hawliau sydd yn y Ddeddf Hawliau Dynol a'r ECHR, yn golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu i sicrhau bod yr hawliau hynny'n cael eu diogelu ar gyfer pobl Cymru. Rwyf yn croesawu ymrwymiad Prif Weinidog Cymru i

[18] Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (2013) Dyfodol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru; Cynulliad Cenedlaethol Cymru; t. 15

atal dirymu'r Ddeddf Hawliau Dynol[19] ond rhaid cymryd camau rhagweithiol i warchod a hyrwyddo hawliau dynol yng Nghymru.

32. Byddaf yn parhau i ddadlau dros ymagwedd yn seiliedig ar hawliau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ac i ymgorffori ymhellach hawliau pobl hŷn yng nghyfraith Cymru. Gobeithiaf y bydd y Pwyllgor yn ystyried fy nhystiolaeth wrth i'ch Ymchwiliad fynd yn ei flaen.

[19] Deans, D. (2015) Welsh Government will do 'everything it can' to block repeal of the Human Rights Act, *Wales Online;* Cyrchwyd: http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/welsh-government-everything-can-block-9279496